Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Simon,

20 Mawrth 2017

**DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y COSTAU GWEITHREDU A AMCANGYFRIFIR AR GYFER AWDURDOD CYLLID CYMRU**

Pan drafodwyd Egwyddorion Cyffredinol y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), ac yn fy llythyr dyddiedig 10 Ionawr, cytunais i ddarparu diweddariad ar y costau i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Mae dwy brif ran i gostau ACC sef costau staff (y rheini a fydd yn rhoi'r Awdurdod ar waith a'r bobl sydd eu hangen i'w weithredu yn effeithiol o fis Hydref 2017 ymlaen), a chostau darparu gwasanaethau digidol a TGCh i gasglu a rheoli ei drethi. Hyd yn hyn, mae sefydlu ACC wedi costio £1.3 miliwn. Rhagwelwn y byddwn yn gwario rhyw £3.5 miliwn ar gostau gweithredu yn 2017/18, a thua £1 miliwn ychwanegol ar hynny yn 2018/19. Yn gyffredinol, mae'r costau gweithredu yn parhau i fod o dan £6.3 miliwn, sef y swm a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Caiff y costau hyn eu mireinio pan fo cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni megis cael gwybod, fis nesaf, pwy fydd partner gwasanaethau digidol ACC; penodi Cadeirydd ac aelodau Bwrdd ACC; a recriwtio i lenwi swyddi allweddol yn haf 2017.

Rwy'n ymrwymedig i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid bob tymor am hynt y gwaith o weithredu ACC; bydd hyn yn cynnwys y costau diweddaraf yn ogystal â'r cynnydd a wneir yn unol â cherrig milltir hanfodol.

Yn gywir,
Mark

**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.